

## **RHAGLENNI GWAITH Y PWYLLGORAU CRAFFU**

### **Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant**

***'Dwyn yr Adain Weithredol i gyfrif mewn perthynas â phob un o'r tair blaenoriaeth yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor: Economi (Adeiladu economi gref); Pobl (Hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb); Lleoedd (Creu cymdogaethau y mae pobl yn falch o fyw a gweithio ynddyn nhw).'***

Mae pob un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor yn gyfrifol am bennu ei raglen waith ei hun a chytuno arni, drwy nodi rhestr o themâu a phynciau sy'n berthnasol i gylch gorchwyl pob Pwyllgor Craffu. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Craffu, caiff rhaglen ymarferol a realistig wedi'i hamserlennu ei datblygu.

Dylai blaenraglenni gwaith y pwyllgorau craffu roi rhesymeg eglur ynglŷn â pham y mae materion penodol wedi'u dewis. Dylen nhw ganolbwyntio ar ganlyniadau a sicrhau bod y dull craffu sydd wedi'i ddewis yn gweddu i'r pwnc a'r canlyniadau y gobeithir amdany'n nhw. Dylen nhw hefyd alinio rhaglenni craffu gyda threfniadau rheoli cyflawniad, hunan asesu a gwelliant y Cyngor.

Drwy gydol y flwyddyn, mae nifer o ffyrdd y mae modd cynnwys materion ychwanegol yn y Rhaglen Waith Craffu, ac mae modd i syniadau i'w cynnwys ddod o nifer o ffynonellau, fel:-

- Cynghorwyr unigol;
- Gwybodaeth monitro cyflawniad neu gyllideb;
- Adroddiadau arolygu;
- Atgyfeiriadau gan y Cyngor (fel Rhybuddion o Gynnig), y Cabinet/y Pwyllgor Archwilio neu bwyllgorau craffu eraill;
- Defnyddwyr y Gwasanaeth;
- Monitro gweithrediad argymhellion sydd wedi'u gwneud gan y pwyllgor yn flaenorol; a
- Trigolion lleol.

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cabinet lunio blaenraglenni gwaith, ac mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cadw golwg ar eitemau neu bynciau sydd ar ddod a fydd o bosibl yn galluogi'r pwyllgorau craffu i chwarae rhan yng ngwaith datblygu polisi ar ran y Cyngor, cyn iddo gael ei ystyried yn ffurfiol gan y Cabinet. Mae'n bwysig cofio bod elfen o hyblygrwydd i bob rhaglen waith unigol sy'n rhoi'r gallu i Bwyllgorau graffu ar faterion newydd/brys sy'n codi yn ystod y flwyddyn. Am y rheswm yma bydd y Rhaglenni Gwaith Craffu yn cael eu cyhoeddi am gyfnod o 6 mis a'u hadolygu bob chwarter.

<b>Dyddiad/ Amser</b>	<b>Eitem</b>	<b>Swyddog</b>	<b>Aelod o'r Cabinet</b>	<b>Craffu yn canolbwyntio ar...</b>
<b>15 Gorffennaf 2021</b>	<b>Rhaglen Waith y Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant 2021/2022</b>	Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu	Y Cyng Ann Crimmings	Trafod eitemau ar gyfer Rhaglen Waith Blwyddyn y Cyngor 2021-2022, a'u cymeradwyo.
<b>15 Gorffennaf 2021</b>	<b>Y Newyddion Diweddaraf - Adfer yn dilyn y Pandemig</b>	Steve Owen Nicola Jones	Y Cyng Ann Crimmings	<p>Derbyn diweddariad pellach mewn perthynas ag effaith y pandemig byd-eang ar y ffigurau ailgylchu yn y Fwrdeistref.</p> <p>Sut mae'r maes gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a pha weithdrefnau sydd ar waith o ran adfer gwasanaethau.</p> <p>Bydd yr adroddiad yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Data a ffigurau ailgylchu</li> <li>• Data Gwastraff Gwyrdd</li> <li>• Ffigurau ailgylchu cewynnau</li> <li>• Data'r canolfannau ailgylchu</li> </ul>
<b>23 Medi 2021</b>	<b>Gwasanaethau Diwylliannol a Threftadaeth</b>	Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadrn y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant Ms C O'Neill, Rheolwr Strategol - Y Celfyddydau a Diwylliant	Y Cyng Ann Crimmings  Y Cynghorydd Rhys Lewis	<p>Trosolwg o'r maes gwasanaeth yn RhCT</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diffiniadau Diwylliant</li> <li>• Rôl diwylliant o ran creu lleoedd</li> <li>• Rôl economaidd Diwylliant</li> </ul>

		Mr A Williams, Rheolwr Datblygu a Gweithrediadau'r Theatrau Ms W Edwards, Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Cymuned		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Enghreifftiau o arfer da gan ddinasoedd craidd eraill y DU a phrofiadau o bob rhan o Ewrop</li> <li>• Cyllid ac adnoddau sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau diwylliannol a threftadaeth</li> <li>• Sut mae trigolion CBSRhCT yn elwa o'r gwasanaethau hyn?</li> </ul>
	<b>Casglu sbwriel</b>	Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gofal y Strydoedd	Y Cyng Ann Crimmings	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ciplwg o sut mae CBSRhCT yn gweithio ar y cyd â grwpiau casglu sbwriel yn y gymuned</li> <li>• Sut rydyn ni'n cyfathrebu â'r grwpiau ac yn eu rheoli er mwyn sicrhau'u bod nhw'n gweithio mewn modd diogel.</li> <li>• Sut mae'r grwpiau'n cael eu cefnogi gan GBSRhCT?</li> </ul>
<b>18 Tachwedd 2021</b>	<b>Seilwaith y Priffyrdd</b>	Roger Waters, Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Rheng Flaen	Y Cyng Ann Crimmings	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Strategaeth Rheoli Asedau</li> <li>• Strategaeth Fuddsoddi</li> <li>• Rhaglen Gyfalaf - Pontydd a Chwlferi</li> </ul>
	<b>Strategaeth Bioamrywiaeth</b>		Y Cyng Ann Crimmings	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Blaenoriaethau ar gyfer cynllun gweithredu a gwella bioamrywiaeth</li> <li>• Polisi Trin a Rheoli Glaswelltir Blodau Gwyllt</li> <li>• Dewch i Siarad RhCT - Blodau Gwyllt'</li> </ul>

Atodiad A

				<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Castell-nedd Port Talbot i adfer dros 540 hectar o dirwedd hanesyddol rhwng y ddwy Sir.</li> </ul>
<b>17 Chwefror 2022</b>	<b>Casglu Gwastraff Gwyrdd</b>	Steve Owen	Y Cyng Ann Crimmings	Er mwyn i Aelodau drafod gwersi a ddysgwyd mewn perthynas â'r newidiadau i gasgliadau gwastraff gwyrdd a thrafod unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol a meysydd i'w gwella
	<b>Strategaeth a Chynllun Gweithredu'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd ar gyfer 2022/25</b>	Wendy Edwards Louise Davies Nick Kelland	Y Cyngorydd Rhys Lewis	Rhag-graffu ar Strategaeth a Chynllun Gweithredu Drafft y Gwasanaeth Llyfrgelloedd ar gyfer 2022/25
	<b>Bioamrywiaeth</b>	Louise Davies Dave Batten Richard Wistow Elizabeth Dean	Y Cyngorydd Crimmings	<ul style="list-style-type: none"> <li>Beth mae'r Cyngor yn ei wneud i gynyddu Bioamrywiaeth o fewn RhCT?</li> <li>Sut mae modd i Aelodau fod yn rhan o'r gwaith o gynyddu Bioamrywiaeth? Yn enwedig prosiectau Blodau Gwylt?</li> <li>Pa brosiectau penodol sy'n cael eu cynnal mewn parciau yn RhCT?</li> <li>Rhagor o wybodaeth am brosiectau adfer cynefinoedd yn RhCT</li> </ul>

Atodiad A

				<ul style="list-style-type: none"><li>• Gwybodaeth am brosiectau ward-benodol</li><li>• Sut mae'r Awdurdod yn mynd i'r afael â Chanclwm Siapan, Balsam yr Himalaya a phlanhigion ymledol eraill?</li><li>• A yw'r Awdurdod yn gweithio gyda grwpiau / cymunedau lleol?</li><li>• Pa wardiau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer tyfu blodau gwylt?</li></ul>
--	--	--	--	--

**I'w ddwyn ymlaen ar gyfer 22/23**

<b>Hawliau Tramwy Cyhoeddus</b>	Jason Bragg	Y Cyng Ann Crimmings	Y weithdrefn cynnal a chadw cyffredinol ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus  Rhaglen Waith ar gyfer 2021-22
---------------------------------	-------------	----------------------	---